| CYNLLUN GWERS | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Uned** | **Gwers** | **Cyfnod allweddol** |
| **Daearyddiaeth** | **1** | **Sut ffurfiwyd Llyn y Fan Fach?** | **3** |

**Pwnc: Llyn y Fan Fach**

**Amcanion:**

- Darganfod sut ffurfiwyd y llyn rhewlifol hwn.
- Dysgu geiriau allweddol a labelu diagram sy’n arddangos sut y cafodd ei greu.

**Geiriau allweddol:**
**Llyn y Fan Fach, cwm, rhewlifiant, sgrafelliad, llyn mynydd, marian.**

| **Cyflwyniad/Deunydd Ysgogi Cychwynnol**:<br>Llun o Lyn y Fan Fach - sut cafodd y llyn hwn ei greu? Trafodaeth dosbarth. | **Amser**<br>5 mun |
|---|---|
| Eglurwch hanes Llyn y Fan Fach gan ddisgrifio ble mae’r llyn.<br>Mae Llyn y Fan Fach yn llyn 10 hectar ar ochr orllewinol y Bannau Brycheiniog. Mae mynyddoedd Picws Du a Waun Lefrith yn edrych dros y llyn ei hun. Roedd wyneb gogleddol Waun Lefrith yn gartref i rewlif yn ystod Oes yr Iâ a gafniodd y cwm lle mae Llyn y Fan Fach bellach.<br>Disgrifiwch, gan ddefnyddio’r PwerBwynt, sut y caiff llyn cwm ei ffurfio dros amser. | 10 mun |
| **<u>Gweithgaredd un</u>**<br>Disgrifiwch sut y caiff llyn cwm ei greu | 10 mun |
| **<u>Gweithgaredd dau</u>**<br>Tynnwch a labelwch gwm. Dylai’r disgyblion ddefnyddio’r holl eiriau allweddol yn eu diagram a sicrhau bod eu disgrifiad cynharach yn cynnwys ystyron pob gair allweddol. Dylai disgyblion (neu ddosbarthiadau) mwy abl ddefnyddio’r daflen waith ‘lluniwch a labelwch ffurfiad cwm’ a dylen nhw dynnu llun a labelu’r ffurfiad ar ddechrau’r Oes Iâ ddiwethaf, yn ystod Oes yr Iâ ac ar ôl Oes yr Iâ. | 15-20 mun |
| Ar ôl i’r disgyblion orffen eu tablau, dylen nhw gau eu llyfrau gwaith. Dylai’r disgyblion wedyn gysylltu geiriau allweddol a’u hystyron ar y daflen waith o’u cof. Os yw amser yn brin, gellir cwblhau hwn fel gweithgaredd dosbarth trwy’r PwerBwynt. | 10 mun |

**Sesiwn lawn:** Gorffennwch trwy drafod p’un ai yw’r disgyblion yn gwybod am unrhyw lynnoedd cwm eraill.

**Gwaith estynedig:** Dylai’r disgyblion chwilio ar y we i ddod o hyd i enghreifftiau eraill o gymoedd a llynnoedd mynydd.

**Gwahaniaethu:** Gall disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ddefnyddio’r daflen waith sydd wedi ei hatodi wrth labelu a thynnu llun cwm.
Dylai disgyblion Mwy Abl a Thalentog gwblhau’r ‘daflen lluniwch a labelwch ffurfiad cwm’

**Asesu:** Trwy ofyn cwestiynau yn y dosbarth a thrwy farcio gwaith dosbarth.

**Adnoddau:**
PwerBwynt, taflen gweddu’r geiriau allweddol, taflen labelu cwm, taflen lluniwch a labelwch ffurfiad cwm.

**Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:**
**Llythrennedd** - Gall y wers hon gysylltu â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Gofynnir i ddisgyblion siarad yn glir gan ddefnyddio iaith briodol*

- *Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol*
- *Dewis a threfnu syniadau a gwybodaeth er mwyn rhoi datganiad clir a llawn.*
- *Gwrando ar eglurhad am brosesau, dilyniannau neu sylwadau ac adnabod y prif bwyntiau mewn trefn.*

**Rhifedd** – Gall y wers hon gysylltu â rhifedd yn y ffordd ganlynol:

- *Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau.*